**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Mark

Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau

Am beth amser, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn pryderu am y modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, a chytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau. Yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017, cytunwyd ar gylch gorchwyl ein hymchwiliad, sydd fel a ganlyn:

Ystyried:

- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau;
- a yw'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwybodaeth am y tanwariant yn glir ac yn dryloyw;
- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu defnyddio'r tanwariant ar ôl cyllido penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau; a
- sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau.

Byddai'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn ynghylch sut y gallai unrhyw newidiadau i'r modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn paratoi ei gyllideb ac yn rheoli cyllid yn ystod y flwyddyn—gan gynnwys tanwariant neu orwariant posibl

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau sydd eisoes wedi'u cyllidebu—effeithio ar brosesau’r gyllideb neu’r gyllideb atodol.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gofyn am ei farn ynghylch dull gweithredu cyfredol y Comisiwn. Rwyf wedi atodi'r ymateb a gafwyd gan ei swyddfa, sy'n rhoi cyd-destun ehangach i'r mater. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb atom erbyn dydd Gwener **9 Chwefror 2018**.

Os bydd angen unrhyw eglurhad neu wybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r clerc: Leanne Hatcher, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6343, **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*